



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 MEDI 2021

Adroddiad gan: Arwyn Thomas , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE – Adroddiad monitro chwarter 1

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 1 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

2.2 Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth. Cytunwyd ar y blaenoriaethau trosfwaol am 2021-2022 â'r Cyd-Bwyllgor ar 24 Chwefror 2021. Cytunwyd ar y cynllun busnes hwn yn ffurfiol gan Brif Swyddogion Addysg pob Awdurdod Lleol, y Cyd-Bwyllgor a'r Prif Weithredwr Arweiniol yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor ar 26 Mai 2021.

2.3 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynglwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

3.2 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

3.3 Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

3.4 Mewn perthynas â sut mae GwE am ymateb i effeithiau ôl-covid yng nghyd-destun Addysg, mae cynlluniau manwl y gwasanaeth yn cyfarch hyn, yn ogystal â'r Strategaeth Rhanbarthol 'Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr'. Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwranddo arnynt, rydym wedi adnabod themâu penodol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol. Yn ogystal, bydd ymweliad cychwynnol yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar ddechrau'r flwyddyn yn ffocysu ar anghenion yr ysgolion, gan gymryd i ystyriaeth effaith Covid. Bydd gwybodaeth gyfansawdd yn deillio o'r ymweliadau yma yn bwydo cynlluniau cefnogi ysgolion, a byddwn yn mireinio ein cynlluniau busnes i adlewyrchu hynny.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 1

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwy'n gwerthfawrogi'r Cynllun Busnes, sy'n nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae paragraff 5 o'r adroddiad blaen yn datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol.